**EITEM AR YR AGENDA: 15**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**17 Mehefin 2013**

**PWYLLGOR MATERION CENEDLAETHOL**

**Adroddiad gan Simon Smith, Prif Swyddog Tân**

## Diben yr Adroddiad

1 I roi diweddariad i Aelodau am y gwaith sy'n cael ei wneud o dan gyfarwyddyd y Pwyllgor Materion Cenedlaethol (PMC).

## Cefndir

2 Nod y PMC yw gweithredu trefniadau gwell ar gyfer cael dull cydgysylltiedig o gydweithio ar draws y tri awdurdod tân ac achub yng Nghymru. Cyflwynir adroddiadau rheolaidd i'r Aelodau i'w diweddaru am y cynnydd a wneir yn y PMC ynghyd ag unrhyw gynigiadau sydd angen cymeradwyaeth penodol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

## Gwybodaeth

3 Cynhaliwyd pedwerydd cyfarfod y PMC yng ngorsaf dân ac achub Llandrindod ar 19 Mawrth 2013 a thrafodwyd y materion canlynol yn y cyfarfod:

4.1 Trefniadau Rheoli Cenedlaethol – ers i ystafelloedd rheoli'r tri GTA gael eu cysylltu â'i gilydd yn 2011, mae'r System Cydnerthedd Cymru gyfan wedi golygu gwell cydnerthedd a hefyd wedi defnyddio'r dulliau mwyaf effeithlon o dderbyn a phrosesu galwadau brys ac anfon adnoddau allan yng Ngogledd Cymru. Mae buddion sylweddol wedi bod i'r tri GTA yn gyfan gwbl o ganlyniad i'r berthynas waith agosach a'r broses barhaus o adolygu'r trefniadau.

4.2 Trefniadau Rheoli Cenedlaethol – mae'r tri GTA wedi cael prosesau llwyddiannus i herio galwadau ffug. Ond mae'r broses herio galwadau yn wahanol ymhob GTA, a lluniwyd adroddiad i egluro'r prosesau cyfredol ac i ganfod newidiadau posibl ynghyd â'r arbedion a sicrhawyd a'r arbedion i'w cael yn y dyfodol. Nodwyd y gwneir gwaith pellach, a bod Strategaeth Herio Galwadau ar gyfer GTAau Cymru gyfan yn yr arfaeth.

5 Diweddariad ar Ddarparu Gwasanaethau Gweithredol a Chydnerthedd – y maes gwaith hwn sy'n gyfrifol am yr elfen fwyaf o gyfanswm y gwariant ar dân ac achub yng Nghymru. Mae'r PMC yn casglu gwybodaeth o bob rhan o Gymru er mwyn bod o gymorth wrth ddatblygu cyllidebau yn y dyfodol ymhob un o'r tri GTA. Darperir dadansoddiad pellach yn y cyfarfod nesaf o'r PMC.

6.1 Caffael Cydweithredol Cenedlaethol – cafodd proses arfaethedig ar gyfer methodoleg arbedion ei chyflwyno i'r PMC. Cytunwyd i fabwysiadu Methodoleg Arbedion Gwerth Cymru (2011/2012) ac unrhyw ddulliau canlyniadol sy'n codi ar ôl trafod gyda Llywodraeth Leol a'r Sector Cyhoeddus yn GTAau Cymru. Caiff y fethodoleg hon ei defnyddio'n eang gan gyrff y sector cyhoeddus yng Nghymru, ac mae'n ffordd gadarn o sicrhau arbedion.

6.2 Arolwg Caffael – Cafodd yr Aelodau wybod am y gwahanol ffrydiau gwaith sy'n mynd ymlaen, a nodi'r cylch gorchwyl ar gyfer Adolygiad Strategol Caffael y PMC. Roedd yr Aelodau'n cymeradwyo datblygu Seminar Hyfforddiant ar Gaffael ar gyfer Cymru gyfan ar ôl cwblhau'r adolygiad o gaffael.

7 Gwasanaethau Cyffredin ac Arbenigol – cytunwyd i gomisiynu methodoleg safonol ar gyfer modelu costau i'w chymhwyso ar gyfer ffrwd waith pob prif faes cydweithio. Bydd hyn yn sicrhau cysondeb wrth fesur a chofnodi arbedion effeithlonrwydd, tra hefyd yn darparu mecanwaith cadarn sy'n gallu gwrthsefyll proses graffu allanol.

8 Strategaeth Cyfathrebu – cytunwyd i fabwysiadu strategaeth gyfathrebu ar gyfer PMC er mwyn cael mecanwaith ar gyfer cyfleu negeseuon clir a chryno i randdeiliaid pwysig.

9 Cynaliadwyedd – Cytunodd yr Aelodau i fabwysiadu fframwaith ar gyfer cynaliadwyedd, oherwydd bydd hynny'n dod yn egwyddor ganolog wrth drefnu ffrydiau gwaith y PMC; bydd hyn yn gymorth i sicrhau lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol y GTAau yng Nghymru.

10 Cyfanswm yr arbedion effeithlonrwydd a ganfuwyd hyd yma yw £2,6 miliwn, 500 ar hyd y tri Gwasanaeth dros gyfnod o 5 mlynedd. Mae'r ffigwr hwn yn ychwanegol at yr arbedion a sicrheir gan y tri ATA drwy eu prosesau unigol ar gyfer gosod y gyllideb.

## Argymhelliad

11 Gofynnir i Aelodau nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.